# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
www.ceredigion.gov.uk

SYLWCH: Fe fydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu ar ôl i'r cyfarfod orffen, a hynny drwy gyfrwng safle rhyngrwyd y Cyngor. Hefyd gallai'r lluniau a'r sain a recordir cael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi yn y Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfan neu ran o'r cyfarfod yn cael ei ffilmio ai peidio.

Yn gyffredinol ni fydd y rhannau lle mae'r cyhoedd yn eistedd yn cael eu ffilmio. Er hynny, trwy ddod i mewn i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r man lle mae seddi'r cyhoedd, mae'r cyhoedd yn cytuno y gallant gael eu ffilmio ac o bosibl i'r lluniau a'r sain a gaiff eu recordio cael eu defnyddio, fel y nodir uchod. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, cysylltwch â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd.

15 Rhagfyr 2023

**Annwyl Syr/Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod Arbennig o'r Cabinet yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy fideo-gynadledda Dydd Iau, 21 Rhagfyr 2023 am 10.00am i drafod y materion canlynol:**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Materion Personol**

3. **Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

4. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**
   **ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 3 - 8)**

5. **Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd**

6. **Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

7. **Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda**

8. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Sylfaen Treth y Cyngor a'r Dyddiadau ar gyfer Talu'r Praeseptau**
   **ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 9 - 16)**

9. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Diwygio Ffioedd a Chostau 2023 - 2024 mewn perthynas ag Adrannau 37, 38 a 278 o Ddeddf Priffyrdd 1980**
**ER PENDERFYNIAD (Tudalennau 17 - 20)**

10. **Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Arweinydd y Cyngor ac Aelodau'r Cabinet**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth**

Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y Cabinet** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar **Ddydd Mawrth, 5 Rhagfyr 2023**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm Dydd Iau, 7 Rhagfyr 2023. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unrhyw benderfyniad i mewn yw 5.00pm Dydd Iau, 14 Rhagfyr 2023 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Dydd Gwener, 15 Rhagfyr 2023.

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Bryan Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Catrin M S. Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Keith Henson, Wyn Thomas, Matthew Vaux ac Alun Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Rhodri Davies, Amanda Edwards, Elizabeth Evans, Eryl Evans, Gwyn Wigley Evans, Raymond Evans, Rhodri Evans, Gareth Lloyd, Ann Bowen Morgan a Caryl Roberts.

(10.00am- 12.32pm)

**110 Ymddiheuriadau**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**111 Materion Personol**

i. Cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd Wyn Evans a'r teulu ar golli ei dad.
ii. Cydymdeimlwyd â theulu Deio Evans, cyn-weithiwr gyda'r Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol sydd wedi marw'n ddiweddar.
iii. Dymunwyd yn dda i Ken Griffiths, Arweinydd Tîm- Gwaith Stryd ar ei ymddeoliad yn dilyn 47 mlynedd o wasanaeth i'r Cyngor Sir yng Ngheredigion.
iv. Dymunwyd yn dda hefyd i Gerwyn Jones, Rheolwr Corfforaethol: Gwasanaethau Amgylcheddol wrth iddo adael ei rôl gyda'r awdurdod. Diolchwyd iddo am ei waith rhagorol a dymunwyd yn dda iddo i'r dyfodol.
v. Llongyfarchwyd George Ryley, Rheolwr Corfforaethol: Caffael a Thaliadau, a gyrhaeddodd y rhestr fer yn ddiweddar fel 'Unigolyn y Flwyddyn' yng Ngwobrau GO Cymru 2023/24. Yn ogystal, dymunwyd yn dda iddo ar ei ymddeoliad o'i swydd bresennol yn dilyn 27 mlynedd o wasanaeth.

**112 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

i. Datgelodd y Cynghorwyr Bryan Davies, Gareth Davies a Matthew Vaux fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 118, gan gadarnhau eu bod wedi cael gollyngiad i siarad a phleidleisio ar y mater hwn gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau.
ii. Datgelodd y Cynghorydd Catrin M S. Davies fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 118, gan gadarnhau ei bod wedi cael gollyngiad i siarad mewn perthynas ag Eiddo Hirdymor ac i siarad a phleidleisio mewn perthynas ag ail gartrefi gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau.

iii. Datgelodd y Cynghorwyr Rhodri Evans a Gareth Lloyd fuddiant personol a buddiant sy’n rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 118. Roedd y ddau wedi cael gollyngiad i siarad a phleidleisio ar y mater hwn gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau.

**113 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy’n codi o’r Cofnodion hynny**

Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2023 yn gywir.

Materion yn codi: Nid oedd materion yn codi o’r cofnodion.

**114 Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd**

Dim.

**115 Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

Dim.

**116 Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda**

Dim.

**117 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal ynghylch Adroddiad Practice Solutions Limited yn dilyn Ymgynghoriad a Gwaith Ymgysylltu – Cyfleoedd Dydd a Seibiant (Pobl Hyn, Anableddau Dysgu, Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog, ac Awtistiaeth) a Darpariaeth Seibiant (Gydol Oes) Ceredigion gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

PENDERFYNIAD:

1. Cymeradwyo’r Adroddiad ar Seibiant a Chyfleoedd Dydd a’r Cynllun Gweithredu fel yr amlinellwyd gan Practice Solutions Limited.
2. Cymeradwyo bod Grŵp Datblygu yn goruchwylio’r gwaith o gyflawni’r Cynllun Gweithredu ar y cyd â Bwrdd y Rhaglen Llesiant Gydol Oes a Grŵp Strategaeth Ceredigion Iachach.
3. Datblygu a chytuno ar amserlen adnoddau a chynllun rhaglen cadarn i gefnogi a sicrhau bod capasiti yn cael ei nodi i arwain ar y rhaglen drawsnewid sylweddol hon.
4. Dychwelyd i’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach gydag Adroddiad Cynnydd Blynyddol.
5. Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a chytuno i drefnu Gweithdy Aelodau yn gynnar yn 2024 yn un o Ganolfannau’r Awdurdod Lleol.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*

Er mwyn caniatáu i’r Awdurdod fwrw ymlaen â’r gwaith o ail-lunio Gwasanaethau Dydd a’r Ddarpariaeth Seibiant yn unol â’r Strategaeth Gydol Oes a Llesiant.

**118** **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Premiwm Treth y Cyngor ar gyfer Eiddo Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Ngheredigion**

PENDERFYNIAD:

1. Ar fater Premiwm Treth y Cyngor yn achos **Eiddo Gwag Hirdymor**, mae'r Cabinet yn argymell i'r Cyngor Llawn y dylai'r Premiwm presennol o 25% gynyddu, o 01/04/24 ymlaen, i:
   a) 100% ar gyfer eiddo sy'n wag yn hirdymor ers pum mlynedd neu lai.
   b) 150% ar gyfer eiddo sy'n wag yn hirdymor ers dros bum mlynedd a hyd at ddeg mlynedd (gan gynnwys deg mlynedd).
   c) 200% ar gyfer eiddo sy'n wag yn hirdymor ers dros ddeg mlynedd.

   Bydd pob cyfnod amser yn cynnwys y cyfnod cychwynnol cyntaf o 12 mis cyn bod annedd yn cael ei diffinio yn Eiddo Gwag Hirdymor am nad yw'n cael ei meddiannu a heb fawr o ddodrefn.

2. Ar fater Premiwm Treth y Cyngor yn achos **Ail Gartrefi**, mae'r Cabinet yn argymell i'r Cyngor Llawn y dylai'r Premiwm presennol o 25% gynyddu i:
   a) 100% o 01/04/24 ymlaen, ac yna i
   b) 150% o 01/04/25 ymlaen.

3. Argymell i'r Cyngor Llawn fod unrhyw ystyriaethau ariannol posib sy'n deillio o'r broses o ystyried yr argymhellion hyn yn cael eu trin fel mater ar wahân mewn cyfarfod yn y dyfodol yn dilyn 14/12/23.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*

- Rhoi gwybod i'r Cyngor Llawn am safbwynt y Cabinet ar bremiymau Treth y Cyngor ar gyfer Eiddo Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Ngheredigion.
- Ceisio dod ag eiddo gwag hirdymor yn ôl i gael eu defnyddio unwaith eto er mwyn darparu cartrefi diogel a fforddiadwy, cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwneud cymunedau lleol Ceredigion yn fwy cynaliadwy.

**119** **EITEM EITHRIEDIG**

Nid yw'r adroddiad sy'n ymwneud ag eitem 119 ar yr agenda, Atodiad B1 a B2, i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12 a 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 5 (Amrywio) (Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, caiff y cyhoedd eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth honno, yn unol ag Adran 100B(2) o'r Ddeddf.

Gofynnwyd i'r Aelodau, wrth ymdrin â'r eitem, ystyried a ddylid gwahardd y cyhoedd a'r wasg o'r Cyfarfod.

PENDERFYNIAD:
Peidio gwahardd y cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod.

*Y rheswm dros y penderfyniad:*
Ni thrafodwyd y ddogfen yn gyhoeddus.

120 **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Chwarter 2**
Nodwyd yr adroddiad.

121 **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Cyllideb Refeniw Reoladwy 2023/24 - Perfformiad Ariannol**
Nodwyd yr adroddiad.

122 **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Adolygiad canol blwyddyn o Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24**
Nodwyd yr adroddiad.

123 **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Contract Bancio**
Nodwyd yr adroddiad.

124 **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Gwaharddiad ar werthu a chyflenwi rhai cynhyrchion plastig untro yng Nghymru yn dod yn gyfraith gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
Nodwyd yr adroddiad a'r adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.

125 **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch y Cynllun Trwyddedu Ychwanegol**
Nodwyd yr adroddiad.

126 **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Cofnodion Cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion (20.10.23)**
Nodwyd yr adroddiad.

127 **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Adroddiad Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-2023 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
Nodwyd yr adroddiad a'r adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.

128 **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol- Chwarter 1 2023/24 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**
Nodwyd yr adroddiad a'r adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.

129 **Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS – Chwarter 1 2023/24**
Nodwyd yr adroddiad.

**130 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet**

Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2024**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:__________________**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

**Adroddiad i'r:** **Cabinet**

**Dyddiad y cyfarfod:** **21 Rhagfyr 2023**

**Teitl:** **Sylfaen Treth y Cyngor a'r Dyddiadau ar gyfer Talu'r Praeseptau**

**Pwrpas yr adroddiad:** **Pennu Sylfaen Treth y Cyngor a'r Dyddiadau ar gyfer Talu'r Praeseptau ym mlwyddyn ariannol 2024/25.**

**Er:** **Penderfyniad**

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:**
**Y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael**

## 1. Y GOFYNIAD I BENNU SYLFAEN TRETH Y CYNGOR

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2004, penderfynodd y Cyngor wneud pennu Sylfaen Treth y Cyngor yn swyddogaeth weithredol, ac felly gall y Cabinet bennu Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer 2024/2025. Mae Sylfaen Dreth unrhyw ardal yn mesur faint o Dreth y Cyngor gall yr ardal honno ei chodi. Mae'n ofynnol cyfrifo'r Sylfeini canlynol:-

(a) Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion;
(b) Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer pob un o ardaloedd y Cynghorau Tref a Chymuned.

## 2. CYFRIFO SYLFAEN TRETH Y CYNGOR

Pennir y rheolau ar gyfer cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor) (Cymru) 1995, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor) a Threth y Cyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor) (Cymru) (Diwygio) 2016.

Mae'r rheoliadau'n gosod y fformwlâu ar gyfer cyfrifo Sylfaen y Dreth mewn unrhyw ardal, ac yn pennu pryd y dylid cyflawni'r cyfrifiadau a chyfleu'r canlyniadau i'r awdurdodau praeseptio a'r awdurdodau sydd â phŵer i godi arian. Nodir y fformwlâu a'r cyfrifiadau yn Atodiad 1.

Felly, i raddau helaeth mae'r adroddiad hwn yn un technegol ac mae'n dilyn y rheoliadau a amlinellwyd.

Mae'r cyfrifiadau ar gyfer Sylfaen Treth y Cyngor, sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 1, yn adlewyrchu disgownt sero ar gyfer yr holl eiddo yn Nosbarthiadau Rhagnodedig A, B ac C, gan dybio y bydd y disgownt sero yn dal i fod yn berthnasol ar gyfer ardal gyfan yr Awdurdod yn 2024/25. Gwneir y dybiaeth ynghylch disgownt sero ar sail penderfyniad diweddaraf y Cyngor ar 14 Rhagfyr 2023 i gynyddu Premiwm Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor o 1 Ebrill 2024 ymlaen (Adrannau 12A(3) a 12B(4) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol fel y cafodd ei mewnosod gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014).

Mae'r ffigurau yn yr atodiadau'n adlewyrchu'r materion canlynol:-

(a) tybiaeth y cesglir 98.5% o'r dreth;
(b) amcangyfrif o'r gostyngiadau y gellid eu hawlio ar sail anabledd;
(c) amcangyfrif o'r disgowntiau y gellid eu hawlio;
(d) amcangyfrif o nifer yr anheddau eithriedig;
(e) amcangyfrif o nifer y dosbarthiadau rhagnodedig ar anheddau;
(f) tybiaeth y bydd yr holl eiddo sydd ar hyn o bryd heb eu bandio (gan gynnwys amcangyfrif o nifer yr eiddo newydd) yn cael eu prisio yn y bandiau priodol a ragwelir;
(g) tybiaeth nad oes gan y Cyngor unrhyw eiddo y gellid eu hystyried yn anheddau eithriedig Dosbarth O sy'n gyfrifoldeb i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn;
(h) y swm a amcangyfrifir mewn perthynas â'r premiwm o 100% a godir o ran ail gartrefi heb unrhyw gyfyngiad ar fyw ynddynt;
(i) y swm a amcangyfrifir mewn perthynas â'r premiwm a godir o ran eiddo gwag hirdymor:
    - 100% ar gyfer eiddo sydd wedi bod yn Eiddo Gwag Hirdymor am hyd at a chan gynnwys 5 mlynedd.
    - 150% ar gyfer eiddo sydd wedi bod yn Eiddo Gwag Hirdymor am dros 5 mlynedd a hyd at a chan gynnwys 10 mlynedd.
    - 200% ar gyfer eiddo sydd wedi bod yn Eiddo Gwag Hirdymor am dros 10 mlynedd.

    (Mae'r holl gyfnodau amser hyn yn cynnwys y cyfnod parhaus cychwynnol o 12 mis sydd ei angen er mwyn i annedd gael ei diffinio fel 'Eiddo Gwag Hirdymor' gan nad oes neb yn byw ynddi ac nid oes dodrefn o sylwedd ynddi.)

Felly mae'r broses ar gyfer cyfrifo a phennu Sylfaen Treth y Cyngor yn cynnwys y lefel newydd o Bremiymau Treth y Cyngor ar Eiddo Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ar 14/12/23. Wrth benderfynu ar amcangyfrif ar gyfer nifer yr anheddau y bydd y premiwm yn berthnasol ar eu cyfer, ystyriwyd effaith y gostyngiad tebygol yn nifer yr eiddo a fydd yn destun y premiwm a'r effaith posib ar y gyfradd gasglu'n gyffredinol. Disgwylir y bydd gostyngiad yn nifer yr eiddo gan mai nod y polisi yw dod ag eiddo gwag hirdymor yn ôl i ddefnydd, cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynaliadwyedd cymunedau lleol.

## 3. CASGLIAD YNGHYLCH SYLFAEN TRETH Y CYNGOR

Felly, Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer 2024/25 yw 33,768.51 sy'n gynnydd o 3.05% o gymharu â Sylfaen y Dreth ar gyfer 2023/24 (32,767.99). Mae'r ffigurau ar gyfer pob Cyngor Tref a Chymuned yn Atodiad 2.

Mae'r data ynghylch Sylfaen y Dreth a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio'r ffurflen CT1, yn cynnwys y Sylfaen Dreth at ddibenion cyfrifo Treth y Cyngor ynghyd â'r cyfrifiad 100% ar gyfer cyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw (nid yw'r ffigurau a ddefnyddir i gyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw yn cynnwys y premiwm sy'n berthnasol i ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor).

Ynghyd â rhywfaint o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrif o nifer yr anheddau a fydd yn destun y premiwm, mae'n bosib nad ydym hyd yn hyn wedi gweld effaith llawn y Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diwygio'r Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022 (sy'n codi'r trothwy sydd yn rhaid i eiddo hunanarlwyo ei gyrraedd er mwyn dod o dan yr Ardrethu Busnes (mae nifer y dyddiau gwirioneddol y rhoddir yr eiddo ar osod wedi codi o 70 i 182 ac mae nifer y dyddiau y mae'r eiddo ar gael i'w osod wedi codi o isafswm o 140 diwrnod i isafswm o 252 diwrnod)). Felly, bydd yn hanfodol monitro hyn yn barhaus yn ystod y flwyddyn.

## 4. TALU'R PRAESEPTAU

Mae darpariaethau Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Praeseptau) (Cymru) 1995 yn berthnasol o ran y praeseptau y mae Cyngor Sir Ceredigion yn eu talu. Yn unol â darpariaethau'r rheoliadau uchod, mae'n ofynnol bod y Cyngor yn gwneud y canlynol:

(a) hysbysu pob awdurdod praeseptio perthnasol ynghylch rhaglen arfaethedig y rhandaliadau cyn 31 Rhagfyr;
(b) pennu rhaglen y rhandaliadau dim cynt na 21 o ddiwrnodau ar ôl hysbysu pob awdurdod praeseptio ynghylch rhaglen y rhandaliadau arfaethedig; a
(c) hysbysu pob awdurdod praeseptio perthnasol ynghylch rhaglen y rhandaliadau cyn 1 Chwefror.

Er mwyn cydymffurfio â'r uchod, argymhellir y rhaglen arfaethedig ganlynol ar gyfer y rhandaliadau:-

i) Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys – 12 rhandaliad cyfartal i'w talu ar ddiwrnod gwaith olaf pob mis, gan ddechrau ym mis Ebrill 2024.
ii) Cynghorau Tref a Chymuned – 3 rhandaliad cyfartal i'w talu ar ddiwrnod gwaith olaf mis Ebrill, Gorffennaf a Hydref.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**
**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam**

Naddo. Nid yw'r adroddiad hwn yn cyfeirio at newid polisi na gwasanaeth.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**
**Hirdymor:** Amherthnasol
**Cydweithio:** Amherthnasol
**Cynnwys:** Amherthnasol
**Atal:** Amherthnasol
**Integreiddio:** Amherthnasol

**Argymhellion:**

1. Cymeradwyo mai Sylfaen Treth y Cyngor at ddibenion pennu Treth y Cyngor yw 33,768.51 yn unol â'r cyfrifiadau a nodir yn Atodiadau 1 a 2.
2. Nodi mai Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer cyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw yw 32,622.36.
3. Cymeradwyo mai rhaglen y rhandaliadau ar gyfer taliadau praesept Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer 2024/25 fydd – 12 rhandaliad cyfartal i'w talu ar ddiwrnod gwaith olaf bob mis gan ddechrau ym mis Ebrill 2024.
4. Cymeradwyo mai rhaglen y rhandaliadau ar gyfer taliadau praesept Cynghorau Tref a Chymuned Ceredigion ar gyfer 2024/25 fydd – 3 rhandaliad cyfartal ar ddiwrnod gwaith olaf mis Ebrill 2024, mis Gorffennaf 2024 a mis Hydref 2024.

**Y rheswm dros y penderfyniad:**
Mae'n ofyniad cyfreithiol i'r Cyngor bennu sylfaen y dreth ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**Trosolwg a Chraffu:**
Amherthnasol

**Fframwaith Polisi:**
Y Broses Flynyddol ar gyfer Pennu'r Gyllideb

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:**
Mae hyn yn sail i'r holl flaenoriaethau corfforaethol.

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**
Mae sylfaen y dreth yn rhan o'r broses i bennu'r gyllideb a chyfrifo Treth y Cyngor ar gyfer 24/25.

**Goblygiadau Cyfreithiol:**
Mae'n rhaid cadarnhau'r ffigurau erbyn 6 Ionawr 2024.

**Goblygiadau Staffio:**
Dim.

**Goblygiadau o ran Eiddo / Asedau:**
Dim.

**Risg / Risgiau:**
Yn sgil y cynnydd yn lefel premiymau Treth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi, mae llai o sicrwydd nag arfer yn yr amcangyfrif o nifer yr anheddau a fydd yn talu'r premiwm yn ystod 24/25. Bydd hyn yn cael ei fonitro yn ystod y flwyddyn.

**Pwerau Statudol:**
Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992

**Papurau Cefndir:**
Dim.

**Atodiadau:**
Papurau Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**
Duncan Hall – Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael

**Swyddogion Adrodd:**
Duncan Hall – Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael
Ann Ireland – Rheolwr Corfforaethol: Refeniw ac Asesiadau Ariannol

**Dyddiad:**
15 Rhagfyr 2023

**ATODIAD 1**

## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

**CYFRIFO SYLFAEN TRETH Y CYNGOR 2024/2025**

Caiff SYLFAEN Y DRETH ei chyfrifo gan ddefnyddio'r fformwla ganlynol: **T = (A x B)**

| | | |
|---|---|---|
| **Y MAE:** | **T = SYLFAEN Y DRETH** | (Y mesur ar gyfer gallu'r ardal i godi treth) |
| | **A = SYMIAU PERTHNASOL** | (Cyfanswm y symiau perthnasol wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio fformwla benodol - gweler isod) |
| | **B = CYFRADD GASGLU** | (Y gyfradd gasglu a awgrymir ar gyfer 2024/2025 yw 98.50%) |

Caiff y SWM PERTHNASOL ar gyfer pob Band Prisio ei gyfrifo gan ddefnyddio'r fformwla ganlynol: $(H - Q + E + J) \times \frac{F}{G}$

| | | |
|---|---|---|
| **Y MAE:** | **H = ANHEDDAU TRETHADWYS** | (Nifer yr anheddau yn y band sydd wedi'u rhestru yn y rhestr brisio, wedi'u haddasu ar gyfer effeithiau gostyngiad i bobl anabl, AC amcangyfrif y Cyngor o newidiadau i'r rhestr ac anheddau wedi'u heithrio yn 2024/2025) |
| | **Q =FFACTORAU I GYFRIF AM OSTYNGIADAUJ** | (Cyfanred y symiau a geir trwy luosi R gydag S ar gyfer pob gwahanol ganran berthnasol - gweler isod) |
| | **R = NIFER YR ANHEDDAU SY'N DESTUN I'R GOSTYNGIAD PERTHNASOL** | (Nifer yr eiddo sydd wedi'u cynnwys yn H yr oedd swm y dreth daladwy ar gyfer y diwrnod perthnasol wedi'i ostwng gan y ganran berthnasol) |
| | **S = CANRAN BERTHNASOL** | (Y ganran ragnodedig (ar gyfer Gostyngiad Person Sengl), a chanran y gostyngiad wedi'i bennu gan yr Awdurdod ar gyfer pob un o'r Dosbarthiadau Rhagnodedig) |
| | **E = FFACTOR PREMIWM** | (Y ffactor ar gyfer cyfrif am bremiwm. Mae'r cyfrifiad ar gyfer eitem E yn gofyn i awdurdod bilio luosi, ar gyfer pob canran berthnasol, amcangyfrif o nifer yr anheddau y mae premiwm yn berthnasol iddynt gyda'r ganran berthnasol) |
| | **J = SWM YR ADDASIADAUSYLFAEN** | (Amcangyfrif y Cyngor o addasiadau i'w gwneud i nifer yr anheddau trethadwy yn y rhestr, ynghyd ag unrhyw ostyngiadau neu bremiymau sy'n berthnasol iddynt ar gyfer 2024/2025) |

**F/G = CYMHAREB I FAND D**

| **BAND** | **Cymhareb i Fand D** |
|---|---|
| A* | 5/9 |
| A | 6/9 |
| B | 7/9 |
| C | 8/9 |
| D | 9/9 |
| E | 11/9 |
| F | 13/9 |
| G | 15/9 |
| H | 18/9 |
| I | 21/9 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CYMHAREB FESUL DOSBARTH RHAGNODEDIG** | **DOSBARTH** | **A** | **0%** |
| | **DOSBARTH** | **B** | **0%** |
| | **DOSBARTH** | **C** | **0%** |

| | | |
|---|---|---|
| **PREMIWM - DOSBARTH RHAGNODEDIG B** | | **100%** |
| **PREMIWM - GWAG HIRDYMOR** | **5 mlynedd neu lai** | **100%** |
| | **dros 5 mlynedd a hyd at 10 mlynedd** | **150%** |
| | **dros 10 mlynedd** | **200%** |

**SYLFAEN TRETH Y CYNGOR AR GYFER CYNGOR SIR CEREDIGION AR GYFER 2024/2025**

| **BAND** | **SYLFAEN Y DRETH** |
|---|---|
| A* | 1.78 |
| A | 1,038.52 |
| B | 3,222.84 |
| C | 6,020.54 |
| D | 6,958.29 |
| E | 9,923.06 |
| F | 4,905.02 |
| G | 1,479.96 |
| H | 174.84 |
| I | 43.66 |
| **CYFANSWM SYLFAEN Y DRETHE** | **33,768.51** |

Y ffigwr ar gyfer cyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw yw 100% o Sylfaen y Dreth ac eithrio'r premiymause
sef: 32,622.36

**SYLFAEN TRETH Y CYNGOR FESUL CYNGOR TREF A CHYMUNED AR GYFER / COUNCIL TAXBASE BY TOWN & COMMUNITY COUNCIL - 2024/25**

| ARDAL TREF NEU GYMUNED / TOWN OR COMMUNITY AREA | BAND A* | BAND A | BAND B | BAND C | BAND D | BAND E | BAND F | BAND G | BAND H | BAND I | CYFANSWM / TOTAL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ABERYSTWYTH 101 | - | 174.58 | 737.33 | 1,106.60 | 730.67 | 759.02 | 497.82 | 158.38 | 26.51 | - | **4,190.91** |
| ABERAERON 102 | - | 39.08 | 84.09 | 80.55 | 148.25 | 205.86 | 185.28 | 54.98 | 5.89 | - | **803.98** |
| ABERTEIFI/CARDIGAN 103 | - | 100.19 | 425.84 | 525.60 | 355.37 | 255.23 | 162.13 | 42.67 | 7.85 | 2.30 | **1,877.18** |
| LLANBEDR P S/LAMPETER 104 | - | 86.40 | 156.30 | 207.32 | 201.46 | 197.13 | 127.30 | 29.54 | 2.95 | - | **1,008.40** |
| CEI NEWYDD/NEW QUAY 105 | - | 16.58 | 59.38 | 107.93 | 242.56 | 285.92 | 94.57 | 31.19 | 9.83 | 2.30 | **850.26** |
| BORTH 106 | - | 11.82 | 123.36 | 169.87 | 156.13 | 244.09 | 67.92 | 16.82 | - | - | **790.01** |
| CEULANAMAESMAWR 107 | - | 12.48 | 94.63 | 64.14 | 70.44 | 117.39 | 49.07 | 27.49 | 1.96 | - | **437.60** |
| BLAENRHEIDOL 108 | - | 3.12 | 29.88 | 40.50 | 72.66 | 40.94 | 17.77 | 4.93 | - | - | **209.80** |
| GENAU'R GLYN 109 | - | 2.30 | 0.57 | 44.44 | 41.62 | 128.51 | 101.70 | 44.32 | 3.93 | - | **367.39** |
| LLANBADARN FAWR 110 | - | 20.54 | 75.85 | 128.50 | 204.66 | 235.67 | 129.43 | 89.45 | 6.88 | 2.30 | **893.28** |
| LLANGYNFELIN 111 | - | 5.26 | 27.00 | 75.95 | 26.60 | 87.30 | 44.45 | 9.85 | 3.44 | - | **279.85** |
| LLANFARIAN 112 | - | 11.49 | 24.31 | 68.73 | 146.29 | 196.84 | 249.63 | 62.77 | 14.73 | - | **774.79** |
| LLANGWYRYFON 113 | - | 4.11 | 9.57 | 27.15 | 73.40 | 92.70 | 44.10 | 11.08 | - | - | **262.11** |
| LLANILAR 114 | - | 6.24 | 16.47 | 69.40 | 142.59 | 168.86 | 52.62 | 27.89 | 3.44 | - | **487.51** |
| LLANRHYSTUD 115 | - | 9.20 | 19.52 | 80.35 | 91.37 | 157.10 | 70.76 | 30.36 | 3.44 | 2.30 | **464.40** |
| MELINDWR 116 | - | 15.59 | 31.97 | 81.66 | 103.20 | 194.72 | 74.68 | 34.05 | - | 2.30 | **538.17** |
| PONTARFYNACH 117 | - | 4.43 | 10.91 | 60.42 | 66.50 | 68.33 | 32.36 | 12.73 | - | - | **255.68** |
| TIRMYNACH 118 | - | 61.10 | 48.66 | 232.27 | 129.79 | 178.16 | 146.15 | 26.66 | 1.96 | - | **824.75** |
| TRAWSGOED 119 | - | 11.16 | 20.30 | 51.24 | 149.98 | 137.53 | 60.45 | 23.80 | 3.44 | - | **457.90** |
| TREFEURIG 120 | - | 7.56 | 4.98 | 224.17 | 197.27 | 269.66 | 78.95 | 19.28 | 1.48 | - | **803.35** |
| FAENOR 121 | - | 4.60 | 31.02 | 61.96 | 87.19 | 398.46 | 171.75 | 68.51 | 4.42 | - | **827.91** |
| YSGUBOR-Y- COED 122 | - | 3.94 | 4.21 | 27.15 | 33.00 | 34.93 | 33.43 | 27.08 | 1.96 | 2.30 | **168.00** |
| LLANDDEWI BREFI 123 | 0.55 | 3.12 | 23.74 | 83.18 | 87.43 | 70.43 | 34.14 | 4.93 | - | - | **307.52** |
| LLANGEITHO 124 | - | 6.40 | 13.40 | 44.24 | 132.24 | 121.60 | 46.94 | 9.44 | 1.96 | - | **376.22** |
| LLEDROD 125 | - | 5.91 | 13.40 | 57.37 | 102.20 | 92.70 | 45.52 | 4.93 | - | - | **322.03** |
| NANTCWNLLE 126 | - | 6.40 | 34.87 | 34.81 | 130.28 | 114.99 | 38.41 | 18.87 | - | 2.30 | **380.93** |
| TREGARON 127 | - | 15.60 | 94.81 | 116.23 | 130.53 | 151.39 | 42.31 | 8.21 | 3.93 | - | **563.01** |
| YSBYTY YSTWYTH 128 | - | 3.77 | 15.13 | 63.91 | 57.38 | 58.38 | 14.94 | 4.11 | - | - | **217.62** |
| YSTRAD FFLUR 129 | - | 7.88 | 68.55 | 42.70 | 83.99 | 74.65 | 32.71 | 6.57 | - | - | **317.05** |
| YSTRAD MEURIG 130 | - | 1.80 | 10.14 | 33.50 | 47.78 | 55.08 | 17.42 | 4.51 | 1.96 | - | **172.19** |
| CILIAU AERON 131 | - | 7.71 | 18.96 | 62.17 | 71.43 | 181.80 | 73.25 | 14.36 | - | 2.30 | **431.98** |
| HENFYNYW 132 | - | 6.24 | 18.97 | 78.15 | 130.03 | 198.03 | 77.16 | 17.65 | 1.96 | - | **528.19** |
| LLANARTH 133 | - | 27.26 | 52.28 | 93.04 | 189.14 | 252.81 | 107.37 | 25.84 | 1.96 | - | **749.70** |
| LLANDYSILIOGOGO 134 | - | 9.36 | 8.05 | 57.57 | 128.55 | 213.40 | 113.78 | 28.72 | 3.93 | 2.30 | **565.66** |
| LLANFAIR CLYDOGAU 135 | - | 5.09 | 19.92 | 29.55 | 87.92 | 108.06 | 39.11 | 14.36 | - | - | **304.01** |
| LLANFIHANGEL YSTRAD 136 | 0.41 | 14.94 | 41.37 | 141.64 | 152.93 | 213.70 | 88.20 | 34.05 | 1.96 | - | **689.20** |
| LLANGYBI 137 | - | 10.01 | 34.27 | 38.96 | 62.06 | 84.57 | 41.25 | 10.67 | 6.39 | - | **288.18** |
| LLANLLWCHAIARN 138 | - | 11.83 | 19.53 | 95.00 | 83.00 | 184.20 | 94.58 | 16.42 | 1.96 | - | **506.52** |
| LLANSANTFFRAED 139 | 0.41 | 39.24 | 38.31 | 103.31 | 190.13 | 199.55 | 58.68 | 8.62 | 1.48 | - | **639.73** |
| LLANWENOG 140 | - | 8.70 | 44.82 | 95.89 | 158.36 | 195.63 | 65.79 | 27.49 | 1.48 | - | **598.16** |
| LLANWNNEN 141 | - | 4.60 | 13.02 | 43.35 | 33.74 | 75.84 | 41.61 | 8.21 | - | - | **220.37** |
| DYFFRYN ARTH 142 | - | 13.30 | 24.12 | 80.99 | 141.86 | 224.84 | 103.83 | 7.80 | 1.96 | 4.59 | **603.29** |
| ABERPORTH 143 | 0.41 | 32.69 | 150.35 | 208.42 | 206.14 | 387.62 | 131.21 | 58.26 | - | 2.30 | **1,177.40** |
| BEULAH 144 | - | 16.08 | 44.25 | 81.87 | 155.90 | 385.24 | 157.89 | 38.16 | 7.37 | 6.87 | **893.63** |
| LLANDYFRIOG 145 | - | 32.19 | 104.21 | 137.48 | 124.12 | 311.51 | 125.16 | 23.38 | 3.44 | 2.30 | **863.79** |
| LLANDYSUL 146 | - | 63.24 | 128.92 | 267.94 | 222.39 | 369.29 | 157.18 | 56.62 | 11.79 | - | **1,277.37** |
| LLANGOEDMOR 147 | - | 17.41 | 48.28 | 87.12 | 116.98 | 193.52 | 93.87 | 34.46 | 12.28 | 2.30 | **606.22** |
| LLANGRANNOG 148 | - | 15.10 | 18.77 | 96.10 | 98.51 | 121.29 | 80.01 | 21.32 | - | 2.30 | **453.40** |
| PENBRYN 149 | - | 14.94 | 24.89 | 57.79 | 132.74 | 300.69 | 187.77 | 60.73 | 1.48 | - | **781.03** |
| TROEDYRAUR 150 | - | 15.92 | 35.43 | 80.35 | 102.70 | 268.78 | 163.93 | 19.28 | - | - | **686.39** |
| Y FERWIG 151 | - | 10.02 | 23.93 | 72.01 | 126.83 | 259.12 | 138.68 | 38.16 | 3.44 | 2.30 | **674.49** |
| **CYFANSWM / TOTAL** | **1.78** | **1,038.52** | **3,222.84** | **6,020.54** | **6,958.29** | **9,923.06** | **4,905.02** | **1,479.96** | **174.84** | **43.66** | **33,768.51** |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 9

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **21 Rhagfyr 2023** |
| **Teitl:** | **Adroddiad ar Ddiwygio Ffioedd a Chostau 2023 – 2024 mewn perthynas ag Adrannau 37, 38 a 278 o Ddeddf Priffyrdd 1980** |
| **Diben yr adroddiad:** | **Cymeradwyo'r diwygiadau i Ffioedd a Chostau 2023-2024** |
| **Er:** | **Penderfyniad** |

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:**
**Y Cynghorydd Keith Henson (Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoli Carbon) a'r Cynghorydd Matthew Vaux (Partneriaethau, Tai, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd)**

**Cyflwyniad**
Ar 14 Chwefror 2023 cymeradwyodd y Cabinet Ffioedd a Chostau'r Cyngor a oedd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023. Mae hyn yn cynnwys y ffioedd a godir gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r gwasanaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ar gyfer gwneud cytundebau cyfreithiol i fabwysiadu priffyrdd o dan Adran 38 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ("y Ddeddf"). Fodd bynnag, mae mwy nag un llwybr statudol i fabwysiadu ffordd breifat, er enghraifft o dan adran 37, a thrwy waith adeiladu preifat ar y briffordd fabwysiedig y bydd angen cael ei gwblhau i'r safon angenrheidiol er mwyn ei mabwysiadu drwy gytundeb adran 278. Nod yr adroddiad hwn yw cydgrynhoi'r ffioedd a godir am waith y mae'r Cyngor yn ei wneud sydd mewn gwirionedd yn debyg iawn ar gyfer pob rhan o'r Ddeddf.

Mae Adran 38 yn rhoi'r pŵer i'r Cyngor ymrwymo i gytundeb lle mae datblygwr yn cytuno i adeiladu ffordd i safon benodol a chyflwyno'r ffordd yn briffordd unwaith y bydd wedi'i chwblhau. O dan gytundeb o'r fath, mae'r Cyngor yn cytuno i fabwysiadu'r ffordd fel y gellir ei chynnal a'i chadw ar gost y cyhoedd, ar yr amod ei bod wedi'i hadeiladu i'r safon y cytunwyd arni. Mae'r ffioedd a'r costau sy'n gysylltiedig ag ymrwymo i gytundebau adran 38 wedi'u nodi yn Ffioedd a Chostau 2023 – 24 fel y'u cymeradwywyd gan y Cabinet:

> https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/cyllidebau-a-chyllid/ffioedd-a-chostau/

Er gwybodaeth, mae'r ffioedd presennol ar gyfer cytundebau adran 38/278 fel a ganlyn;

**Gwasanaethau Cyfreithiol**

| ***Tâl dan Adran 38/278*** | |
|---|---|
| Codir 1% hyd at £500,000 cyntaf o werth y gwaith | Isafswm o £1,050 – Uchafswm o £5,250 |
| Tâl amrywio dan Adran 38/278 | £622.00 |

**Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol**

| ***Ffioedd Goruchwylio a Gweinyddu Adran 38*** | | |
|---|---|---|
| Gwaith hyd at £500,000 | | £6,000 |
| Gwaith dros £500,000 | Y £500,000 cyntaf | 8% o werth y gwaith |
| | Y £500,000 nesaf pan fo’r gwerth yn fwy na £0.5m | 7% o werth y gwaith |
| | Y £2,000,000 nesaf pan fo’r gwerth yn fwy na £1m | 6% o werth y gwaith |
| | Gweddill gwerth y gwaith pan fo’n fwy na £3m | 5% o werth y gwaith |

Mae Adran 37 o’r Ddeddf yn llwybr amgen i’r uchod sy’n galluogi datblygwr i gwblhau’r gwaith o adeiladu ffordd cyn cyflwyno hysbysiad i’r Cyngor yn datgan eu bwriad i gyflwyno’r ffordd yn briffordd. Anaml y caiff y llwybr hwn ei ddefnyddio gan ddatblygwyr gan ei fod yn cynnwys nifer o gamau lle mae potensial i atgyfeirio i’r Llys Ynadon ac, o’r herwydd, mae risg y bydd y bwriad i fabwysiadu’r ffordd o dan adran 37 yn methu. Yn hanesyddol, nid yw’r Cyngor wedi pennu ffi ar gyfer mabwysiadu ffyrdd o dan adran 37 gan nad yw hyn yn cael ei gynnig yn aml, fodd bynnag, nid ansylweddol yw’r gwaith sydd angen ei wneud i sicrhau bod ffordd yn cyrraedd y safon angenrheidiol er mwyn ei mabwysiadu a/neu wneud cwyn i’r Llys Ynadon os yw’n ystyried na fyddai’r briffordd arfaethedig o ddigon o ddefnydd i’r cyhoedd i gyfiawnhau ei chynnal o’r pwrs cyhoeddus. Byddai angen i’r Cyngor ofyn am dystiolaeth a bod yn fodlon â’r dystiolaeth a ddarperir bod holl ofynion y Cyngor a fyddai fel arfer yn rhan o unrhyw gytundeb adran 38 yn cael eu bodloni. Mewn gwirionedd, mae’r gwaith cymeradwyo yr un fath â’r gwaith cymeradwyo ar gyfer cytundebau adran 38 ond bydd yn cael ei wneud mewn trefn wahanol, a bydd yn cynnwys arolygon ymwthiol (e.e. creidd-samplu) ac anymwthiol (e.e. Teledu Cylch Cyfyng), ar ôl i’r ffordd gael ei hadeiladu.

Mae Adran 278 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn gytundeb rhwng trydydd parti a’r Cyngor sy’n caniatáu iddynt wneud gwaith newydd o fewn ffin y briffordd fabwysiedig neu wneud addasiadau i asedau presennol y briffordd fabwysiedig fel asiant i’r Cyngor fel yr awdurdod priffyrdd. Mae’r gwaith a gwmpesir gan y rhan hon o’r Ddeddf fel arfer yn cael ei gynnwys yn rhan o Gytundebau adran 38 ond gellir ei ddefnyddio fel cytundeb annibynnol lle nad oes unrhyw waith adran 38 cysylltiedig. Yn y gorffennol, mae’r Cyngor wedi cymhwyso ffioedd sy’n gymesur â ffioedd adran 38 yn gyson, a’r rheswm y maent wedi’u cynnwys yn y papur hwn yw cael gwared ar unrhyw amheuaeth o ran a fyddant yn cael eu cymhwyso ai peidio. Mae’r ffi Gwasanaethau Cyfreithiol a gymeradwywyd gan y Cabinet ar gyfer cytundebau adran 278 yn union yr un fath â’r ffi ar gyfer cytundebau adran 38.

Er mwyn sicrhau y gellir adennill yn llawn y costau ar gyfer cytundebau Adran 278 ac unrhyw hysbysiadau Adran 37 a dderbynnir gan y Cyngor yn y dyfodol, argymhellir bod Ffioedd a Chostau 2023 – 2024 yn cael eu diwygio i gynnwys ffioedd a chostau sy’n ymwneud â mabwysiadu priffyrdd o dan Adran 37 ac Adran 278 o Ddeddf Priffyrdd 1980.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**
**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam.**

Naddo. Nid yw'r adroddiad hwn yn cyfeirio at newid mewn polisi neu strategaeth.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**
**Hirdymor:** Amherthnasol
**Cydweithio:** Amherthnasol
**Cynnwys:** Amherthnasol
**Atal:** Amherthnasol
**Integreiddio:** Amherthnasol

**Argymhelliad:**
**Bod y Cabinet yn CYMERADWYO diwygio Ffioedd a Chostau 2023-2024 fel a ganlyn:**

> "Ffioedd Goruchwylio a Gweinyddu Adran 37, 38 a 278" ar gyfer Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (t. 14)
>
> a
>
> "Tâl adran 37/38/278" o dan y Gwasanaethau Cyfreithiol (t. 20)

**Y rheswm dros y penderfyniad:**
**Er mwyn sicrhau y gall y Cyngor adennill yn llawn y costau ar gyfer ymateb i hysbysiadau Adran 37 a cheisiadau o dan adran 38 ac adran 278 o Ddeddf Priffyrdd 1980.**

**Trosolwg a Chraffu:**
Amherthnasol

**Fframwaith Polisi:**
Ffioedd a Chostau 2023 - 24

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:**
Amherthnasol

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**
Bydd cymeradwyo'r argymhelliad hwn yn galluogi'r Cyngor i adennill yn llawn y costau ar gyfer ymateb i geisiadau am gytundebau Adran 278 a hysbysiadau Adran 37.

**Goblygiadau Cyfreithiol:**
Gwell llywodraethu o ran pennu ffioedd ar gyfer cytundebau adran 278 a hysbysiadau adran 37.

**Goblygiadau o ran staffio:**
Dim

**Goblygiadau o ran eiddo/asedau:**
Dim

**Risgiau:**
Gallai methu â diwygio Ffioedd a Chostau 2023 – 24 olygu na all y Cyngor adennill yn llawn y costau sy'n codi mewn perthynas ag Adrannau 37 a 278 o Ddeddf Priffyrdd 1980.

**Pwerau Statudol:**
Deddf Priffyrdd 1980

**Papurau Cefndir:**
Adroddiad Cabinet 14 Chwefror 2023 – 'Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael am y Ffioedd a'r Costau:
https://cyngor.ceredigion.gov.uk/documents/s4584/Adroddiad-%20Ffioedd%20a%20Chostau.pdf?LLL=1

**Atodiadau:**
Dim

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**
Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol- Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu
Rhodri Llwyd, Swyddog Arweiniol Corfforaethol- Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol

**Swyddog Adrodd:**
Louise Harries, Uwch Gyfreithiwr - Annadleuol (Eiddo)
Steve Hallows, Rheolwr Gwasanaeth- Datblygu Priffyrdd

**Dyddiad:**
12.12.2023